Cyswllt · Contact
Ffôn · Telephone
Ein cyf · Our ref
Eich cyf · Your ref
Dyddiad · Date
e-bost · e-mail

Mrs Rebeca Jones
01766 772256

7fed Mawrth 2018
rebeca.jones@eryri.llyw.cymru

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Ile i enaid gael llonydd
SNOWDONIA NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Mr Richard Duggan
The Planning Inspectorate
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dear Mr Duggan

Parc Cendlaethol Eryri
Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031 Archwiliad Adolygiad

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror 2018 ac rwyf wedi nodi ymatebion i bob pwynt isod.

1. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio at y sylfaen dystiolaeth wedi'i ddiweddaru a gynhwysir yn y Papurau Cefndir fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws.

2. Adlewyrchir amcanestyniadau aelwydydd 2014 yn y ddogfen Newidiadau Ffocws i adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth wedi'i ddiweddaru.

3. Mae'r geiriad 'yn ddarostyngedig i welliant pellach' ac 'amcangyfrif o'r ddarpariaeth tai' yn gamgymeriad golygu a bydd yn cael ei ddileu fel rhan o'r ddogfen Newidiadau Ffocws. Bydd y tabl Cydrannau o'r Cyflenwad Tai wedi'i ddiweddar yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws. Ni ystyrir bod angen gwaith pellach cyn yr Archwiliad.

4. Yr unig ddiweddariad i'r ffigurau yn Nhabl 1 'Y Gydran Tabl Cyflenwad Tai' a gynhwysir yn DC22-7A Tai 2 yw yn rhes D 'Safleoedd bach ar hap'. Mae Rhes D wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu dosbarthiad mwy cywir o lwfans trosi rhwng haenau aneddiadau. Roedd y tabl o dan Para 5.7 tudalen 74 o'r Cynllun Adneuo yn cynnwys ffigur o 100 o unedau yn y golofn cefn gwlad agored (a oedd yn cynnwys yr holl drosiadau a ragwelwyd o fewn cyfnod y Cynllun). Mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn fwy cywir i ddosbarthu'r lwfans trosi rhwng yr holl haenau anheddiad yn seiliedig ar y trosiadau sydd wedi cael eu cwblhau yn y gorffennol. Mae hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer y cydrannau yn y tabl cyflenwad tai. Nid yw'r ffigyrau sydd wedi eu diweddaru yn newid darpariaeth cyffredinol y cynllun, fodd bynnag, mae'r ffigurau a ddiweddarwyd yn golygu bod y ddarpariaeth tai o fewn pob haen yn wahanol i'r hyn a gynigiwyd yn y cynllun adneuo. Mae'r Awdurdod o'r farn bod y ffigyrau diweddaraf yn fwy cywir ac yn agos iawn at ddosbarthiad Cyflenwad Tai CDLl Eryri a fabwysiadwyd. Mae'r Awdurdod o'r farn bod cyfanswm y dosbarthiad

darpariaeth tai yn rhoi ystyriaeth i natur wledig Eryri ac wrth edrych yn ôl ar adroddiadau monitro blynyddol blaenorol, ystyrir bod y rhain yn dargedau cyraeddadwy. Fel y cyfeiriwyd ato ym mhwynt 3 uchod, bydd y tabl Cydrannau Cyflenwad Tai wedi'i ddiweddaru yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws. Ni ystyrir bod angen gwaith pellach cyn yr Archwiliad.

5. Bydd tystiolaeth bellach yn cael ei chyflwyno i'r Arolygydd ar sut y diffiniwyd y newidiadau i'r canrannau a'r trothwyon ym Mholisi Strategol G. Bydd yr Awdurdod yn darparu'r wybodaeth hon erbyn 27 Ebrill 2018.

6. Mae'r Awdurdod wedi cysylltu â'r ymgynghorydd a gyflawnodd y gwaith sydd wedi'i gynnwys ym Mhapur Cefndir 18: Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy ac wedi gofyn am ddiweddariad i'r wybodaeth a gynhwysir yn yr astudiaeth.

7. Fel uchod, mae'r Awdurdod wedi cysylltu â'r ymgynghorydd a ymgymerodd â'r Astudiaeth Tai Fforddiadwy gwreiddiol i ddarparu rhagor o wybodaeth i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan yr Arolygydd. Mae'r Awdurdod wedi gofyn i waith pellach gael ei wneud yn unol â'r sylwadau a amlinellwyd gan yr Arolygydd.

8. Cytunwyd ar Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd terfynol rhwng yr asiantau sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru a PAC Eryri gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r diwygiadau i ddyraniad y safle a'r polisi a gynigiwyd trwy gyfrwng y Newidiadau Ffocws wedi cael eu drafftio gyda'r dystiolaeth ychwanegol hon. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr Arolygydd yn cael diweddariad mewn perthynas ag unrhyw drafodaethau pellach rhwng y partïon.

9. Fel uchod

10. Mae'r Awdurdod wedi cynnal gwerthusiad safle o'r holl safleoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r cam Darpar Safleoedd a ystyriwyd fel rhai addas ar gyfer cael eu hasesu'n llawn. Ystyriwyd nad oedd nifer o'r darpar safleoedd a aseswyd yn addas ac mae cyfyngiadau ynghlwm iddynt sy'n eu gwneud yn rhai na ellir eu cyflawni ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhai addas ar gyfer tai. Bydd yr Awdurdod yn gwneud gwaith ychwanegol i sicrhau bod yr Arolygydd yn cael gwerthusiad o'r holl safleoedd amgen rhesymol pe bai o angen hyn yn ddiweddarach.

O ran yr Ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws, mae'r Awdurdod yn gobeithio y bydd mewn sefyllfa i anfon y cynrychioliadau / sylwadau a dderbynnir ganddo i'r Arolygydd ymhen dim mwy na phythefnos ar ôl diwedd y Cyfnod Ymgynghori. Y gobaith yw y bydd y wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i'r Arolygydd.

Yn Gywir,

Rebeca Jones

Mrs Rebeca Jones
Pennaeth Policy Cynllunio